
# Llygad Barcud

## Cylchgrawn Cymdeithas Ted Breeze Jones



Rhifyn 45 - Haf 2021

# GOLYGYDDOL

Os bu i'r hen glwy corona 'ma ein llorio ni a sawl cymdeithas arall ers blwyddyn a hanner bellach mae siawns, siawns o'r diwedd, y bydd pethau'n llacio cyn bo hir. Bu i rai cymdeithasau, fel Cymdeithas Edward Llwyd, ail-gydio yn ofalus mewn nifer fechan o deithiau dros y misoedd diwethaf, ond bu raid iddynt gydymffurfio â rheolau caeth o ran niferoedd a'r angen i bawb gofrestru o flaen llaw a gwarantu iechyd cyn ymuno. Gwyliwch ein gwefan, bydd neges cyn bo hir am ailgychwyn ein gweithgareddau ni at dymor yr Hydref. Ydy, mae diwedd gofid ar y gorwel!

Faint ohonoch oedd wedi archebu o flaen llaw a bellach wedi derbyn y gampwaith o gyfrol *The Birds of Wales/Adar Cymru*? Cyrhaeddodd yn rhy hwyr i roi adolygiad ohoni yn y rhifyn hwn o Llygad Barcud - bydd yn y rhifyn nesa'. Da gweld cydnabyddiaeth ynddi bod Cymdeithas Ted wedi noddi'r ysgrif gampus ar y dylluan wen er cof am yr annwyl Dewi Jones, 'Stiniog.

**Llun y clawr**: Y crëyr bach a'r crëyr mawr gwyn - **Elfyn Lewis**


**Swyddogion**

**Llywyddion Anrhydeddus**: Iolo Williams ac Annwen Breeze Jones

**Cadeirydd**: Twm Elias (twm.elias@gmail.com)

**Trysorydd:** Huw Dafydd

**Ysgrifennydd**: Gareth Jones, Bryn Eithin, Yr Ala, Pwllheli LL53 5BN, 01758 614470

**Golygyddion Llygad Barcud**: Twm Elias a Gareth Jones (pwllheli@gmail.com)

**Cyfeiriad cyswllt cyffredinol:** gwefeistr@cymdeithastedbreezejones.org.uk


## Cynnwys:


Rhai o adar swil yr ail gyfnod clo *Ieuan Bryn* .......... 3

Adar mewn enwau lleoedd *Twm Elias a Duncan Brown* .......... 10

Aderyn y rhew *Twm Elias* .......... 15

Rhagor o enwau adar *Dewi Lewis* .......... 16

Dilyn y gog: Prosiect y BTO *Kelvin Jones* .......... 19

Bywgraffiad Ted *Twm Elias* .......... 22


Cynigir **10%** o ostyngiad i aelodau'r Gymdeithas yn siop **Cotswold, Betws-y-coed**

Cyfrannwch i'n gwefan a chwiliwch drwy ôl-rifynnau Llygad Barcud

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**

Edrychwch ar yr holl luniau o'n teithiau ar

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk/lluniau.html**

# Rhai o adar swil yr ail gyfnod clo

Wrth edrych ymlaen (efo'i dafod yn ei foch) at ymddeol, mae R. Williams Parry yn un o'i gerddi yn croesawu'r cyfle gaiff o bryd hynny i wrando, ymysg pethau eraill, ar 'afr yn yr awyr yn brefu am ei myn'. Tydi o ddim wedi colli arno'i hun! Yr hyn mae o'n ei wneud, wrth gwrs, ydi disgrifio'r sŵn (sŵn tebyg i fref gafr) y bydd **gïach** yn ei wneud i gael sylw cymar neu i ddatgan ei hawl i'w diriogaeth.



*Gïach*

Y Prifardd Ieuan Wyn wnaeth egluro mai 'gafr y gors' ydi'r enw a roir i'r gïach mewn rhai ardaloedd, ac mae Dewi Lewis, yn ei gyfrol 'Rhagor o Enwau Adar', yn cadarnhau hyn.

Mi glywais i'r sŵn y tro cyntaf ar Ynys Tiree yng ngogledd-orllewin yr Alban, a methu deall o ble roedd o'n dod. Roedd yna nifer o gïachod yn yr awyr, ac wrth eu dilyn drwy fy sbenglas, sylweddoli mai'r unig adeg y clywn y sŵn oedd pan fyddai yna gïach yn hedfan ar i lawr yn weddol chwim.

Mae'n debyg bod teulu'r gïach i'w gael ar bob cyfandir, ac eithrio Awstralia ac Antartica; ac ymhell cyn i wyddonwyr ddeall sut bydd o'n cynhyrchu ei 'frefiadau', roedd yna sawl damcaniaeth ymysg gwerin gwlad, a mwy nag un esboniad mewn llên gwerin. Er enghraifft, roedd yna gred boblogaidd yn Sweden mai ceffyl wedi'i gipio i'r awyr drwy hud oedd yn cynhyrchu'r sŵn (hyn yn ddiddorol i ni yng Nghymru am mai '**caseg y gors**' ydi enw pobol Cwm Tawe ar yr aderyn).

Yn yr Almaen, roedd pobol yr Hen Fyd yn cysylltu'r 'brefu' efo'r sŵn y byddai geifr y duw Thor yn ei wneud, wrth iddyn nhw lusgo'i gerbyd rhyfel o gwmpas y bydysawd.

Drwy gynnal cyfres o arbrofion, daeth Johann Friedrich Naumann i'r casgliad yn 1830 mai efo'i adenydd yr oedd y gïach yn gwneud y sŵn rhyfedd. Penderfynodd gwyddonydd arall o'r Almaen, Friedrich Wilhelm Meves, ganolbwyntio ar y gynffon, a chyn bo hir, mi allodd gadarnhau'n wyddonol mai plu'r gynffon sy'n creu'r sŵn.



*Mae cynffon unigryw y gïach yn amlwg yn y llun*

Mae'n cael ei greu pan fydd plu allanol y gynffon yn crynu drwyddynt wrth i'r deryn ddefnyddio'i adenydd i reoli'r aer sy'n llifo tuag at y gynffon. Mewn arbrofion, canfuwyd mai 24.2 milltir yr awr ydi'r cyflymder lleiaf sy'n cynhyrchu'r sŵn, ac mai 52.3 milltir yr awr sy'n cynhyrchu'r sŵn mwyaf.

Canfod ryw bethau fel hyn, a chofio fel y byddai Bardd yr Haf yn cael ei swyno ganddi, sy'n gwneud y profiad o fynd ar drywydd 'gafr y gors', yn enwedig yn y gaeaf, yn un mor ddifyr: hynny a'i gwylio hi'n igam-ogamu'n wyllt a herciog yn yr awyr. Hefyd, patrymau godidog y plu, yn enwedig y rhai sydd ar ei chefn.

Mi gofiaf fod wrth Bwll Cain ar Enlli, a thri ohonon ni am y gorau yn trïo dyfalu sawl gïach oedd yn swatio yn y brwyn. Saith gododd yn y diwedd: fesul un ac un, a hynny ar yr hanner eiliad olaf, bob tro.

Yr ail aderyn y byddwn i'n chwilio amdano fo yn y cyfnod clo oedd y **cyffylog**. Roedd o'n cael ei ystyried yn dderyn go dwp yn yr Oesoedd Canol, am ei bod yn hawdd ei ddal. Ac yn un o'i gywyddau, mae Dafydd ap Gwilym yn ei ddiawlio am i'w hediad byrbwyll godi braw ar y ferch roedd Dafydd yn 'glân ymddiddan' efo hi yn y coed.

Hawdd ei ddal? Rhaid fy mod i, felly, yn eithriadol o dwp oherwydd er ei fod o yr un maint â ch'lomen, mae'n dipyn o her dod o hyd iddo pan fydd o'n llechu yn y dail crin ar lawr coedwig, a'i blu yn guddliw perffaith iddo fo.

Tipyn haws ei weld o yn y cyfnos, yn ystod y tymor nythu, ac yntau'n mynd ar ei hald i geisio hudo cymaint o ieir â phosib. Nid deryn un cymar mo hwn, fwy nag oedd Dafydd ap Gwilym!

Ond mae'r creadur wedi cael ei hela a'i goginio ers o leia' oes y Rhufeiniaid, ac mi ddefnyddiwyd ei blu at sawl pwrpas dros y canrifoedd, gan gynnwys paentio'r rhesen aur ar ochrau cerbydau crand Rolls-Royce. Meddyliwch, mewn difri'!



*Cyffylog*

Mae'n galondid gwybod, felly, bod yna niferoedd da o gyfflogod yn nythu yma yng Ngwledydd Prydain, ac maen nhw wedi addasu i fyw mewn coedwigoedd conifferaidd yn ogystal â choedwigoedd collddail. Yn ystod yr hydref, fe ddaw niferoedd mawr iawn yma o Ewrop nes bod yna, mae'n debyg, bum gwaith yn fwy ohonyn nhw na'r cyfflogod cynhenid.

Pan oeddwn i'n byw yn Rhyd-y-main, mi ddois i nabod un ohonyn nhw yn eitha' da. A thua'r Dolig unwaith, pan oeddwn i'n cuddio rhagddo fo yng nghornel cae rhwng Braich Bedw a Thŷ Cerrig, mi hedodd i 'nghyfeiriad i, a hithau yn pluo eira'n braf. Mi ddoth yn agos, agos a'i lygaid marblis mawr yn fy hoelio i, yn y diwedd!

Mynd yn fy mlaen at Goed Llwyn Cynfal, a chyn imi gyrraedd yno, ei glywed o yn codi'n ffrwcslyd y tu ôl i wal gerrig uchel. Dyma edrych drosti, a gweld olion ei adenydd yn yr eira – yr olion adawodd o pan benderfynodd ei heglu hi am ei fywyd.

Rydw i yn ei chael hi'n anos dod o hyd i'w deulu yma yn ardal Penrhyn, er y bydda i'n chwilio amdano fo'n gyson o fis Tachwedd ymlaen, yn enwedig mewn coedlan wrth hen ffermdy Rhiw Goch. Mi gododd o ganol y brwgaitsh yno un bore, o fewn chydig lathenni imi. Dim ond ei glywed o wnes i, am fy mod i newydd droi 'ngolygon i gyfeiriad arall, ac mi sgrialodd i rywle heb imi gael lliw na llun ohono fo.

Digwyddais weld un yng nghyffiniau Pentraeth eleni: corff llonydd,

carpiog ar ganol y ffordd fawr, gwaetha'r modd. Ond mi fetiwn fy nghrys imi ei weld yn yr un llecyn rhyw bythefnos ynghynt, pan gododd o'r ffos ar gyrion coedwig oedd â'i llawr, bryd hynny, yn drwch o eirlysiau. Roedd ein chwarae mig ni wedi troi'n farw go hyll.

Mae'r trydydd aderyn yn un o'r adar hynny y byddwch chi'n dotio arno fo mewn llyfr adar, tra'n corddi ynoch eich hun wrth feddwl na welwch chi fyth mo 'Hwnna!'

Gadewch imi ddisgrifio'r deryn sydd gen i mewn golwg. Mae o'n tua saith modfedd o hyd. Ei ben o'n fawr a solat, a'i wddw'n llydan. Cynffon bwt a'i blaen hi'n wyn. O gwmpas y llygaid, mae yna gylch du sy'n ymestyn o dan yr ên i ffurfio bib du. Mae cefn yr aderyn yn frown tywyll, a'r frest a'r bol yn llwydfelyn hyfryd. Mae ganddo big hynod o nobl sy'n llwyd yn y gaeaf, ac yn troi'n lasddu yn yr haf. Ac ar ei adenydd, mae yna strimynnau gwyn, brown golau, du a llwydlas trawiadol.

Oddi wrth y disgrifiad yna, mi fyddwch yn gwybod mai sôn yr ydw i am y **gylfinbraff**, y mwya' o deulu'r pincod.


*Gylfin braff*

Ar hadau coed a hadau ffrwythau y mae o'n byw'n bennaf, ac efo cyhyrau cryf ei ên, a'i big nerthol, mi all dorri hyd yn oed gerrig ceirios yn ddigon di-lol.

Mae'n dderyn swil iawn. Felly, ynghudd ym mrigau ucha'r coed y bydd o'n treulio'r rhan fwya' o'i amser, a dim ond pan fydd o'n chwilota am hadau y gwelir o ar y ddaear – yn hopian hwnt ac yma yng nghysgod coed.

Oherwydd eu swildod, anodd gwybod faint yn union o ylfinbraffau sydd gennym. Roedden ni'n gwybod ers tro mai de-ddwyrain Lloegr ydi eu cadarnle, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn llawer o waith maes a phrosiectau penodol, canfuwyd bod yna lawer mwy na'r disgwyl

i'w cael, er enghraifft, yn ardal Dolgellau, yn clwydo efo'i gilydd ac yn nythu mewn niferoedd da.

Deryn llyfr natur oedd y gylfinbraff i minnau nes imi ddigwydd edrych drwy ffenest fy llofft, un pnawn, a gweld un ar y wifren ffôn o fewn cwta lathen i wydr fy ffenest. Gallwch ddychmygu'r syndod a'r ebychiadau! Iâr oedd hi: ddim mor drawiadol â'r ceiliog efallai, ond gwledd i fy llygaid i.

Dois i wybod bod yna rai i'w gweld yn yr yw ym mynwent eglwys Llanbedr-y-cennin yn Nyffryn Conwy. Mi fues yno fwy nag unwaith, a llwyddo i gael cip ar un neu ddau ym mrigau uchel coed y caeau cyfagos, ond erioed yng nghoed y fynwent ei hun: mi fydden nhw wedi fy ngweld i o bell, ac wedi diflannu.

Llwyddais, drwy hir amynedd, i weld rhai hefyd ym mynwentydd Maentwrog a Llanelltud. Ac yn ystod y cyfnod clo, roedd yna iâr a cheiliog (oedd wedi'u modrwyo yn ardal Dolgellau) i'w gweld yn gyson, led gardd neu ddwy o 'nghartref i.

Mi fyddan nhw'n codi nyth (nyth brigau blêr) yn uchel mewn coeden - mewn fforch, yn aml iawn. Y ceiliog fydd yn dewis y safle ac yn gosod sylfaen y nyth, a'r iâr yn cymryd yr awenau rai dyddiau'n ddiweddarach. Mi fydd hi'n dodwy 4-6 o wyau, fesul un y dydd, ac yn gori am 11-13 diwrnod. Ac er mai hi yn unig fydd yn cyflawni'r dyletswyddau gori, mi fydd y ceiliog a hithau yn bwydo'r cywion ar y cyd - ar lindysod, a hadau wedi'u meddalu drwy godi cil.

Ond a hithau wedi troi'n wanwyn, dyma ddychwelyd i'r Berwyn un bore yn nechrau Ebrill i chwilio am y **boda tinwyn**, a'i ganfod yn ymdaflu ar hyd ac ar led yr awyr, wedi hurtio fel y lloi fydd yn blasu rhyddid cyntaf y caeau ar ôl eu gaeaf dan do. Roedd y boda yn ôl yn ei hafod, ac am gyhoeddi i'r byd ei fod yn chwilio am gymar eto.



*Boda tinwyn*

Cefais y profiad gwefreiddiol, fwy nag

unwaith yn y gorffennol, o wylio boda tinwyn yn dawnsio yn yr awyr, ond roedd y sioe hon yn mynd â gwynt rhywun yn llwyr.

Parhaodd y perfformiad cyntaf am oddeutu deng munud, wrth iddo ddringo'n unionsyth, a throi a throsi wrth ddisgyn, cyn ysgubo i fyny a phlymio, sawl tro.

Egwyl wedyn, ac yna, perfformiad yr un mor egnïol â'r cyntaf... Egwyl eto, a deng munud arall o gampau herfeiddiol... Trydydd perfformiad, a hwnnw hefyd yn codi blew fy ngwar.

Cyn pen hanner awr, daeth perfformiad ola'r bore. Yn ôl fy mras amcan i, dringodd y ceiliog drichant a mwy o droedfeddi ac, am bron ugain munud, bu'n plymio, yn rholio, yn bwrw tin dros ben, gan saethu i fyny pan ddeuai o fewn trwch adain i'r ddaear.

O'r diwedd, cododd yr iâr i ymuno ag o, gan gyffwrdd â'i grafangau unwaith (os nad ddwywaith), ac yna, llithro'n hamddenol dros y gefnen gydag o.



*Boda'r gwerni*

Mewn theatr neu stadiwm, byddai pawb ar ei draed yn bloeddio am ragor!

Cynhyrchodd y bodaod bump o wyau ddechrau Mai (nifer anghyffredin o dda i fodaod tinwyn), a llwyddodd y pâr i oresgyn oerni a glawogydd y Mai gwlypaf ers 1869. Ond pan oedd yr wyau ar fin deor, fe reibiwyd y nyth gan ysglyfaethwr, gan adael dim ond plisgyn un wy ar ôl.

Ar sail tymor nythu perffaith yr un pâr o fodaod y llynedd, roedd yna edrych ymlaen at wythnosau difyr o wylio'r cywion yn datblygu ac yn dysgu hedfan a hela.

Mor aml y cymerwn bethau yn ganiataol, a dyna oedd neges y bodaod i mi - fel cân y canwr Geraint Griffiths:

*Mae pob siwrnai yn daith o brofiad,*
*A phob profiad yn siwrnai ddrud;*
*Mae pob milltir yn cynnig cyfle*
*I werthfawrogi pob eiliad sydd.*



*Aderyn y bwn*

**Ôl-nodyn**

Tua diwedd y cyfnod clo... **boda'r gwerni** yn hwylio i nythu yng Nghors Ddyga, galwadau rhyfeddol tri **aderyn y bwn** yn atseinio dros y corsydd yno, **tylluan wen** yn hela yng ngolau dydd a llyg bychan yn ei chrafangau, **glas y dorlan** yn fflachio i lawr Afon Nanmor dan chwibanu a'r haul ar ei gefn symudliw, haid o gant a mwy o **gwtiaid aur** yn ei swancio hi yn eu plu haf, **cornchwiglod** yn ddigon â rhoi'r bendro i'r sadiaf ar ei draed wrth iddyn nhw fynd drwy'u campau, a'r **gog** i'w gweld a'i chlywed unwaith eto er gwaethaf pawb a phob pandemig.



*Cwtiad aur*

**Ieuan Bryn**
*(lluniau oddi ar y we)*



*Tylluan wen*

# Adar mewn enwau lleoedd

*(Addasiad o erthygl ymddangosodd gyntaf yn Llafar Gwlad, 2021)*

Mae ein henwau lleoedd, boed yn enwau pentrefi, tai, ffermydd, caeau a nodweddion y tir yn gyforiog o gyfeiriadau at fyd natur. Mewn cyfres o bedair erthygl yn y cylchgrawn *Llafar Gwlad* yn ddiweddar(1) bu i ni edrych ar y cyfoeth o enwau yn cyfeirio at blanhigion a'u cynefinoedd; anifeiliaid gwyllt a dof; adar; trychfilod a physgod. Dyma feddwl y byddai'r erthygl ar enwau dofednod, adar hela ac adar gwylltion o ddiddordeb i ddarllenwyr *Llygad Barcud*, felly dyma addasu dipyn ac ychwanegu ati a'i chyflwyno at eich sylw.

## *Dofednod*

Llain yr Iâr (Llanengan), Nant yr Iâr (Llanfairfechan), Cae Bach y Ffowls (Llansteffan) a Gallt y Ceiliog (Llanaelhaearn). Cawn sawl enw gyda'r elfen 'talwrn', e.e. pentre Talwrn ym Môn, yn cyfeirio at yr hen arfer o ymladd ceiliogod. Mae'n bur debyg mai dyna ddigwyddai hefyd yn Cae Ffeito Ceiliogod (Tregaron).

Mae sawl enw yn cyfeirio at gadw gwyddau, e.e. Cae Gwyddau (Llannor), Gwern y Gwydda' (Llanenddwyn) a Cae Pwllgwydda (Llanrwst). Ceir traddodiad llafar mewn rhai ardaloedd, e.e. Penrhyndeudraeth, bod yr enw Cae Pitshio yn cyfeirio at yr arfer gan borthmyn gwyddau o roi pŷg ar draed gwyddau i'w harbed rhag niwed wrth gerdded y ffyrdd i Loegr. Tybed? Ar y llaw arall, heblaw am Lyn - neu Bwll Hwyaid, sy'n enwau cyffredin, prin yw enwau eraill sy'n cyfeirio at hwyaid - am mai cadw at gyffiniau'r llyn neu bwll yw tuedd Wil Cwac-Cwac a'i dylwyth. Er hynny ceir Cnwc y Marlat (Eglwyswrw).

Os oes enw yn cyfeirio at dwrci/tyrcwns yn rhywle gadewch inni wybod – er mai siawns ei fod yn dderyn rhy newydd i gael enwau lleoedd hyd yn hyn sy'n cyfeirio ato.

Cedwid paun gan ambell un am ei fod yn difa nadroedd. Cawn Tyddyn y Paun (Llangoed).

## *Adar yr helwriaeth*

Enwau Saesneg geir fel arfer ar y mapiau am lefydd magu ffesantod: '*pheasantry*', '*covert*' ayyb. Hawdd deall paham, oherwydd sbort perchnogion stadau oedd, ac yw, y math hwn o saethu a dyfodd i'w fri o'r 18fed ganrif ymlaen wrth i'r hen uchelwyr Cymreig droi'n fyddigions

Saesnigedig. Dyma adlais, fel yn enwau Seisnigedig ambell bentref e.e. Bow Street, o 'Frad yr Uchelwyr' yn ein henwau lleoedd.

Adar eraill yr helwriaeth oedd grugieir, a chawn: Crugiau Ieir (Mynydd Llanllwni) a Phenrhiw Iâr (Rhandirmwyn), sy'n cyfeirio at yr iâr fynydd yn hytrach na iâr y buarth. Un arall yw y betrisen, fel yn Weyn Betrys (Llanfwrog) a Cae'r Patrish (Y Tymbl). A beth am y cyffylog, fel yn Waun Fflogyn (Dyffryn Ogwen), Y Gyffylog (Pant Glas) ac Ynysgyffylog (Llangelynnin). Hefyd y gïach, fel yn Plas y Gïach (Glandŵr, Penfro) a Ffridd Grech (Dyffryn Dulas).

***Brain***

Efallai mai y frân gaiff y sylw pennaf yn ein henwau lleoedd oherwydd mae'r enw yn gyson drwy Gymru ar yr un llaw a hefyd mae safleoedd nythu dwy fath o frân yn gallu bod yn hir-sefydlog ac mewn llefydd amlwg. Er enghraifft mae ambell franas, neu nythfa yr ydfran neu frân bigwen (ei henw gan rai ym Meirionnydd) mewn coedydd ar lawr gwlad yn gallu para am ddegawdau neu hyd yn oed ganrifoedd mewn rhai achosion. Mae crawcian cysurus cymdeithasfa'r brain yn fodd i'ch ymlacio ac fe'i hystyrir yn anlwc o'r mwyaf os, am ryw reswm, y bydd i'r adar symud eu branas i rywle arall. Branas (Llandderfel), Pant y Brain (Cilycwm).



*Cigfran*

Bydd y gigfran hithau yn dewis safle sefydlog, silff gysgodol ar glogwyn uchel fel arfer a bydd llecyn saff fel hwn yn gwneud y tro am genedlaethau. Hawdd gwybod mai at y gigfran y cyfeirir drwy ei henw, fel yn Nyth y Gigfran, clogwyn ar gyrion Blaenau Ffestiniog a safle debyg ar arfordir gogledd Môn. Mae'r 'garreg' yn Carreg y Frân (Cwm Teigl) yn dangos mai cigfran, neu brân greigiau fel y'i gelwir yn Nefyn, roddodd ei henw i'r clogwyn.

Anodd dweud pa fath o frân roddodd ei henw i Nant Cwmbran (Llanllyfni) a Cwm Brân (Gwent). Y frân dyddyn yw'r fwyaf cyffredin yn Nant Cwmbran o leiaf. Enw difyr yw Tyddyn Gobaith Brân (Llanddyfnan, Môn), sy'n gyfeiriad at le anhylaw yn hytrach na'r aderyn. Un arall o'r

teulu yw'r bioden, fel yn Tyddyn Biodan (Caergybi) a Penbryn Piogod (Rô Wen).

***Adar y môr***

Bydded ofalus wrth ddehongli enw fel Carreg y Frân os digwydda ar yr arfordir rhag ofn mai at y fulfran y cyfeirir. Ond nid oes amheuaeth pan welwn enwau megis Llech y Fulfran (Llyn Padarn) a Trwyn y Fulfran (Cilan). Tybed faint ohonoch oedd hefo ni ac yn cofio taith Cymdeithas Ted i'r Foryd a Chaer Belan pryd yr aethom i sefyll ar Drwyn y Fulfran ar lan y Fenai? Taith a phrofiad bythgofiadwy. At y fulfran y cyfeirir yn Craig yr Aderyn (Tywyn) – yr unig safle drwy wledydd Prydain lle nytha'r fulfran ymhell o'r môr.

Ynysoedd y Gwylanod (Rhoscolyn), Ynys Gwylan Fawr ac Ynys Gwylan Fach (Bae Aberdaron). Ceir sawl Llyn yr Adar yn Eryri, sy'n cyfeirio at y gwylanod penddu a arferai nythu yno. A beth am Parc y Pal (Nanhyfer)?



*Mulfran werdd*

***Yr hebog a'i ryw***

Oherwydd cymysgedd rhyfeddol yn enwau rhai o'n hadar ysglyfaethus o ardal i ardal[2] rhaid bod yn ofalus wrth geisio nabod pa rywogaeth sydd dan sylw yn yr enwau ar y map. Gall gwalch glas gyfeirio at yr hebog tramor *(Falco peregrinus)* gan rai hyd heddiw tra ei fod yn enw ar y llymysten neu'r *sparrow hawk (Accipiter nisus)* yn ein rhestrau enwau safonol y dyddiau hyn. Gwelwn yr enw hebog, ffefryn hebocwyr y Canol Oesoedd, yn Moel Hebog (Beddgelert) a Cae Nant yr Hebog (Dyffryn Dulas), tra yn Nyffryn Conwy ceir Carreg Gwalch roddodd ei henw i wasg enwog yn Llanrwst yn ogystal. Mentrwn mai at yr hebog tramor y cyfeirir ato yma oherwydd clogwyn yw ei hoff nythle. Ond tybiwn mai at y llymysten, sef y gwalch glas arall, y cyfeirir ato yn Llwyn y Gwalch (Y Groeslon)[3], am na welwch fyth hebog yn nythu mewn llwyn neu goeden, ond mae'n gynefin addas i'r llymysten a'r cudyll coch. Ceir Cae'r Cudyll ym Mro Ddyfi.

Tybed pa aderyn y cyfeirir ato yn Nantybarcud (Llanuwchllyn), Clogwyn

y Barcud (Rhyd Ddu) a Craig y Barcud (Tywyn)? Ai y bwncath (boda i bobl y de) ynteu'r barcud coch? Gall bera hefyd, dan rai amgylchiadau, gyfeirio at y barcud coch. Tybed ai ei enw sydd yn Nant y Bera (Llanfihangel y Pennant) a Gallt y Bere (Rhandirmwyn)? A beth am Allt Maenderyn ar y llwybr o Ryd Ddu am yr Wyddfa? Safle dda i hebog gadw golwg am brae de'cini.

***Eryrod***



*Ger Llanfihangel Glyn Myfyr*

Ni cheir cofnod o eryrod yn magu yng Nghymru ers canol y 17eg ganrif ac aderyn prin, er yn drawiadol, fyddai hyd yn oed ar ei fwyaf niferus rai canrifoedd cyn hynny. Ceir 82 o enwau lleoedd yn cyfeirio at eryrod a thybia awduron gwaith ymchwil diweddar[4] bod 64 o'r rhain yn ddilys: Môn 8, Gwynedd 22, Clwyd 9, Powys 11, Ceredigion11, Morgannwg Ganol 2 a Gwent 1. Efallai bod y ffigyrau hyn braidd yn uchelgeisiol oherwydd y siawns o gymysgu ag adar ysglyfaethus eraill a bod ambell enw yn gyfeiriad at eryrod chwedlonol. Tybed beth yw tarddiad Coed Eryr (Nantgwynant)? Ar glogwyn y bydd yr eryr aur yn nythu fel arfer.

***Crëyr, crychydd a garan***


Enw arall sydd angen bod yn ofalus ag ef yw garan. Erbyn heddiw enw ar y *crane (Grus grus)* yw, ond mewn amseroedd a fu, roedd yn enw hefyd ar y crëyr glas neu'r crychydd. Ceir Deri garan a Castell Crychydd yn Nyfed[5].

***Yr eos***

Cawn un o'r enghreifftiau gorau o beryglon dehongli enwau yn achos yr eos. Dyma dderyn fu'n magu yng Nghymru unwaith ond ddim bellach ers amser maith. Cyfeiria Dafydd ap Gwilym ati: *"Cytgerdd eos mewn coetgae"* meddai, ac eto, *"Salm wiw is helm o wiail".* Roedd Dafydd felly yn hollol gywir yn ei ddisgrifiad o gynefin arferol yr eos.

Mae enwau lleoedd gyda'r elfen eos ynddynt wedi eu gwasgaru ar hyd a lled y wlad[6]. Ond, gocheled, nid yw pob un yn cyfeirio at yr aderyn. Mabwysiadodd sawl cantor dynol enw'r eos arno ei hun: Eos Ceiriog, Eos Morlais, Eos Bradwen a.y.y.b. Na, doedd dim prinder Eosiaid yng Ngwlad y

Gân a bu i ambell gerddor hyd yn oed roi enw'r aderyn ar ei gartref. Sut mae gwahaniaethu? Mae'n bur debyg bod enwau cynefin, megis Llwyn Eos a Pant Eos yn cyfeirio at yr aderyn go iawn tra bod enwau sy'n cyfeirio at dai, fel yn Llety'r Eos yn fwy tebygol o gyfeirio at lysenw preswylydd a ganai'n dda. Dengys y map fod y cofnodion yn ymrannu i ddau glwstwr, yn rhanbarthol ac o ran ystyr. Mae'r rhai 'cynefin' yn lledaenu ar hyd y Deheubarth yn bennaf, a'r rhai 'adeilad' ar y gororau – yn y gogledd orllewin yn bennaf.




*Dosbarthiad enwau lleoedd (o gronfa enwau lleoedd Melville Richards) yn cynnwys yr elfen 'eos'. Gallant gyfeirio at yr aderyn neu at annedd ryw gantor dynol. (Map gan Dominig Kervegant)*

***Adar eraill***

Gwelwn gyfeiriad at nifer dda o adar eraill yn ein henwau lleoedd, rhai o bwys economaidd fel y golomen, neu'r sguthan, sy'n bwyta grawn, e.e. Moelgolomen (Bontgoch Elerch), Cae Colomennod (Caergybi) a'r golomen ddof, fel yn Colomendy (Dinbych). Arwydd tymor i'w chroesawu yw y gôg: Pant y Gôg a Bryn y Gôg (Nebo) am mai yma y daw i ganu ei deunod gyntaf ym mhlwyf Llanllyfni bob blwyddyn. Felly hefyd yn Tyddyn Cog-allt (Llanystumdwy), Carngwcw (Dyfed) a'r enw difyr Nyth y Gôg (Bryncroes).

Caiff adar eraill sylw yn: Simdde’r Dylluan (Rhyd Ddu), Pant y Wennol (Llŷn), Bronhedydd (Llandwrog), Cae Cornchwiglen (Cororion), Cae Gylfinir (Llaneilian), Tafarn Ditw (Penfro a Llandegla) er y gall titw gyfeirio at gath neu rhywun bychan hefyd, Croes y Mwyalch (Gwynedd) a sawl enw yn mawrygu y dryw bach: Castell y Dryw (Llanilltyd), Llys y Dryw (Mathri) a Tre Dryw (Brynsiencyn). Mae’n bosib mai tynnu coes sydd yn rhai o’r enwau hyn yn cysylltu’r dryw â thyddyn neu dŷ bychan.

*(Cofiwch mai crafu’r wyneb wnaethpwyd yn yr ysgrif hon. Mae cyfeiriadau at adar rif y gwlith yn ein henwau lleoedd. Os oes enghreifftiau ychwanegol y buasech yn hoffi tynnu sylw atynt, gadewch inni wybod.)*

***Cyfeiriadau***


1. Llên Gwerin a Byd Natur 41, 42, 43 a 44 yn *Llafar Gwlad* 150 (2020) a 151 (2020), 152 (2021) a 153 (2021) Twm Elias a Duncan Brown
2. *Rhagor o Enwau Adar*, Llyfrau Llafar Gwlad 66, Dewi E Lewis (2006)
3. *Hen Enwau o Arfon, Llŷn ac Eifionydd*, Glenda Carr (2011)
4. An evidence-based assessment of the past distribution of Golden and White-tailed Eagles across Wales, S. Williams et al, *Conservation Science & Practice* (2020)
5. *Ystyron Enwau*, Traethodau Arobryn Eisteddfod Gadeiriol Towyn (1907)
6. *Bwletin Llên Natur* 5 (Mehefin 2008)


**Twm Elias** a **Duncan Brown**

## Aderyn y rhew



*Llun: Valeri Plotnikov /Kennedy News*

Efallai nad yw corff yr aderyn bach yn y llun uchod yn ryw ddeniadol iawn, ond fe ddylai gael maddeuant am hynny pan sylweddolwch ei fod yn 46,000 oed. Pan y’i darganfyddwyd gan ymchwilwyr yn 2018 roedd ei gyflwr bron yn berffaith am i’w gorff bach fod wedi ei gadw – wedi ei rewi’n gorn yn y ‘permafrost’ yn ardal Belaya

Gora yng ngogledd-dwyrain Siberia. Yr oedd 'fel petae wedi marw ddoe'.

Oddiar hynny cafodd ei astudio gan wyddonwyr yng Nghanolfan Ymchwil Palaeogenetig Prifysgol Stockholm ac Amgueddfa Bywyd Gwyllt Sweden. Cyhoeddwyd canlyniadau'r ymchwil yn ddiweddar ac mae'r hyn a ganfyddwyd yn rhyfeddol.

Iâr o rywogaeth ehedydd y traeth *(Eremophila alpestris)* yw'r aderyn, sy'n gyffredin drwy y rhan fwyaf o diroedd agored gogledd Ewrop, Asia a gogledd America. Mae'n ehedydd gweddol fawr ei faint ac yn ymwelydd prin â Chymru yn y gaeaf - ar y traethau fel arfer. Bydd nifer fechan o gofnodion ohono bron bob blwyddyn ar draethau'r gogledd.

**Twm Elias**

## Rhagor o enwau adar

Bron i ddeugain mlynedd yn ôl tra'n fyfyriwr ym Mhrifysgol Bangor, dechreuais gasglu enwau llafar ar adar. Maes y chwilio yn bennaf oedd hen gylchgronau a phapurau newydd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif Cofnodais y mwyafrif o'r enwau mewn dau lyfr nodiadau gan sgriblo gwybodaeth amgen megis enw, cyfrol a rhif y cylchgrawn neu bapur ynghyd â lleoliad yr enw. Cyhoeddwyd ffrwyth y chwilen yma mewn dwy gyfrol Enwau Adar (Gwasg Carreg Gwalch {1994}) a Rhagor o Enwau Adar (2006). 'Chydig iawn o ffynonellau neu ardal yr enwau a gynhwyswyd yn y ddwy gyfrol. Ychwanegwyd rhai ardaloedd yn yr ail gyfrol ond ar y cyfan prin iawn oedd rhain.

Mis Ebrill 2019, cysylltodd Duncan Brown yn gofyn, a allwn roi lleoliad i rai o'r enwau llafar ar y Bras Melyn ar gyfer safle Wicipedia. Dyma felly dyrchu am y llyfrau nodiadau. Erbyn hyn roedd trydydd llyfr nodiadau gan i'r rhestr dyfu'n raddol dros y blynyddoedd. Yn anffodus ni lwyddais i ddod o hyd i'r ail lyfr nodiadau felly bu'n rhaid i mi ddibynnu'n bennaf ar y llyfr cyntaf a ddechreuwyd ym 1980. Wrth bori drwy'r tudalennau a cheisio deall llawysgrifen dyddiau coleg cefais bleser mawr yn dod ar draws gwybodaeth ac enwau yr oeddwn wedi anghofio amdanynt.

Yn y cylchgrawn Cymru'r Plant Cyf 14 rhif 157, 1905 cafwyd beirniadaeth ar gystadleuaeth o gasglu rhestr o enwau adar. Y beirniad oedd Richard Morgan o Lanarmon. Mae'n ddiddorol darllen beirniadaeth

Richard Morgan ar y tri ar hugain o ymgeiswyr yn y gystadleuaeth ac yn y pendraw cytuna i rannu'r wobr o ddeg swllt rhwng y pedwar gorau. Yr hyn â aeth a'm sylw oedd y feirniadaeth ar y casgliad dan y ffugenw Willie Roberts

> *"Rhestr fach go dda, a hithau yn dyfod o dre (Lerpwl). Aml i wall, megis 'ddrydwan' am 'ddrudwen' 'piogan' am 'pioden'. Os am ddweud 'piogan' ysgrifennwch 'pioden'".*

Mae hefyd yn feirniadol o ddefnydd y cystadleuwyr o 'pen felan' a holai "Beth yw gialchen? Onid yw mwyalchen yn well?"

O bori drwy fy llyfr nodiadau sylwais bod degau o enghreifftiau a fyddai wedi dod dan lach Richard Morgan. Ond mewn gwirionedd adlewyrchu iaith bro neu ardal y mae'r enwau a pha fodd bynnag maent yn cael eu hynganu. Wrth bori hefyd deuthum ar draws sawl enw nad oeddwn wedi eu cynnwys yn y ddwy gyfrol, dyma felly eu rhannu (ynghyd â'r ardaloedd lle mae hynny'n wybyddus) â darllenwyr *Llygad Barcud*.

- Molchan (*Blackbird*)) (Morgannwg)
- Sywican (*Long-tailed Tit*) (Nantgarw)
- Trefiad (*House Sparrow*) ceir hefyd y ffurf Tresiad
- Tylluan y Gwyll (*Barn Owl*)
- Gelyn yr Ieir (*Buzzard*) cymharer yr enw yma â Gelyn y Golomen ar yr Hebog Tramor
- Jac y Ddogell (*Chaffinch*)
- Cudyll y Llygod (*Short-eared Owl*)

Y pump isod i gyd o **Llandudno** (diolch Duncan Brown am rhain)

- Yswidw Warwen (*Coal Tit*)
- Clochydd y Coed (*Great Tit*)
- Cwtiad y Morlan (*Ring Plover*)
- Cryban y Gro (*Turnstone*)
- Cracell y Cerrig ( *Wheatear*)

Rhain o **Flaenau Ffestiniog**

- Y Gidyll Goch (*Kestrel*)
- Hedydd Mawr (*Skylark*)-er mwyn ei wahaniaethu o'r ehedydd

bach (*Meadow Pipit*)

- Bili Bol Melyn [(*Willow Warbler*)-neu'r *Willow Wren* yn ystod y cyfnod-defnyddir yr un enw ar y Siglen Felen (*Yellow Wagtail*)]
- Deryn dŵr (*Kingfisher*)
- Llwyd y Berth , Llwyd y Twmpath (*Wryneck*). Defnyddir Llwyd y Berth ar y *Dunnock* hefyd.
- Dinas pen felan (dyna fo eto!), Llinos felen, Ceiliog Eurben (*Yellowhammer*)

Yna o **Gricieth**

- Ehedydd Fawr (*Skylark*)-eto er mwyn ei wahaniaethu o'r ehedydd bach(*Meadow Pipit*)
- Pen felen (*Yellowhammer*)
- Buffin (*Bullfinch*)
- Llinos Lwyd (*Linnet*)
- Crynfarch (*Hobby*)
- Soscan (*Fieldfare*)

Ac yna o ardal **Tŷ Ddewi**

- Pwmp y gors (*Bittern*)
- Pinc yr aden wen (*Chaffinch*)
- Balcwt (*Coot*)-llygriad efallai o *Bald Coot* yn y Saesneg.
- Whilfran (*Cormorant*)
- Cwail (*Corncrake*)
- Whipw wil (*Nightjar*)
- Cwdmflinsh (*Goldfinch*)
- Morra [lluosog: Mwrs] (*Razorbill*)
- Sparwod (*House Sparrow*)
- Shecibigw (*Blue Tit*)
- Crac y claw (*Wheatear*)
- Winier (*Wigeon*) llygriad efallai o'r Saesneg *Winder*
- Cwffwlog (*Woodcock*)
- Scrad y cwed (*Jay*)
- Melynberth (*Yellowhammer*)

- Glofeinir (*Curlew*) - Sir Feirionnydd
- Whibonog (*Curlew*) - Ceredigion
- Gylfinir Cymalog (*Stone Curlew*)
- Rhuddyn y Coed (*Woodchat Shrike*) - Llanrwst
- Gwennol y Sawell (*Swallow*) - Llanrwst

A’r ffefryn, Gwas y Gornchwiglen (*Dunlin*) “ar lafar yn y Gogledd”; tybed ym mha ardaloedd?

**Dewi Lewis**

## Dilyn y gog: Prosiect y BTO

Aderyn Affricanaidd yw'r gog yn y bôn - aderyn y coedwigoedd trofannol sy'n mentro i'r gogledd bob gwanwyn i fridio. Dim ond am wyth wythnos y bydd y gog yn aros yng Nghymru o flwyddyn i flwyddyn. Tan bod y BTO yn rhoi tagiau lloeren ar gogau am y tro cyntaf yn 2010, y cwbl a wyddem amdanynt oedd eu bod yn teithio tua’r de, i lawr drwy ogledd yr Eidal, ac yn cyrraedd rhywle yn Affrica yn y diwedd.

O'r data a gasglwyd wrth dagio cogau yn East Anglia, dysgwyd bod y ceiliogod yn gadael yng nghanol mis Mehefin, ond bod yr ieir a'r cywion yn aros yn hwyrach. Bydd y ceiliogod yn mynd i lawr drwy'r Eidal, yn hedfan dros y Sahara, ac yna i lawr i goedwig law’r Congo yng ngorllewin Affrica. Fe fyddan nhw’n cychwyn ar eu taith yn ôl i Gymru ym mis Ionawr, ac yn cyrraedd yma erbyn Ebrill.

Peth peryglus yw ymfudo dros bellteroedd maith, ac ni fydd llawer o'r cogau’n goroesi, naill ai ar y daith tua’r gogledd neu wrth ddychwelyd adref i Affrica yn yr hydref. Y gobaith wrth eu tagio oedd darganfod y llwybrau a gymerant, ac ymhle yn union y byddant yn treulio’r gaeaf.

Yn hollol annisgwyl, dangosodd y data eu bod yn dilyn dau lwybr hollol wahanol: un yn mynd â nhw drwy'r Eidal a thros Fôr y Canoldir i Libya cyn croesi'r Sahara; a'r llwybr arall yn un mwy gorllewinol trwy Sbaen a Gibraltar. Canfuwyd bod y cyfraddau goroesi ar gyfer y ddau lwybr yn wahanol, gydag adar yr Eidal yn llwyddo’n well. Mae’n rhaid bod mwy o broblemau ar y llwybr gorllewinol, ac felly, bod llawer o'r cogau sy'n hedfan dros Sbaen ac yna Affrica yn cael eu colli.

Y daith yn ôl o Affrica yw'r un anoddaf. Pan fyddant yn hedfan i'r de,

does yna ddim brys, ond wrth ddychwelyd ar gyfer y gwanwyn, mae'r 'cloc' yn dweud wrthynt bod yn RHAID cyrraedd Cymru erbyn canol mis Ebrill, ac felly, bydd mwy ohonynt yn cael eu colli yr adeg honno.
Yn 2012, tagiwyd pump o gogau yn Nhregaron. Canfuwyd bod y gog a alwyd yn **David** yn mynd rhagddo i gwblhau pedwar ymfudiad yn ôl a blaen i Affrica. Ei lwybr wrth adael Cymru oedd East Anglia, Yr Iseldeiroedd, gogledd yr Eidal, Macedonia, Montenegro (lle byddai'n aros), wedyn Libya ac yna'r Congo. Byddai'n gwneud y cylch yma yn flynyddol rhwng 2011 a 2017 nes i'r tag lloeren nogio yng ngorllewin Affrica. Byddai David yn dychwelyd bob blwyddyn i'r union fan y cafodd ei dagio yn Nhregaron. Buom yno sawl gwaith yng ngwanwyn 2017 gan obeithio ei weld, ond welson ni yr un gog gyda modrwy na thag lloeren. Mae'n bosib ei fod wedi marw, ond ein gobaith yw ei fod yn dal yn fyw.
Eleni, tagiwyd dwy gog arall yng Nghymru. Enwyd un yn **Jac** a chafodd ei dagio ar Fynydd Eglwyseg, Llangollen ar Fehefin y cyntaf. Bydd y rhai ohonoch sydd wedi bod ar Fynydd Eglwyseg ar doriad gwawr, yn gwybod ei fod yn lle cwbwl hudolus, gyda sŵn grugieir duon yn dawnsio wrth arddangos i'w glywed yn y pellter.


*Jac pan ddaliwyd ef yn Eglwyseg*

Cyrhaeddais yno ben bore a gosod yr offer dal ar gyfer Lee Barber, modrwywr y BTO, ac ar unwaith, daliwyd corhedydd a iâr gwalch glas. Pan gyrhaeddodd Lee, penderfynwyd chwarae tâp o'r gog yn galw, cyn mynd ati i fodrwyo'r gwalch glas. Yn syth, ymatebodd ceiliog cog, ac o fewn ychydig funudau, roedd o yn y rhwyd.
Cafodd ei enwi'n Jac er cof am yr Athro Jenny Clack, palaeontolegydd blaenllaw, a gâi ei chydnabod yn awdurdod ar y modd yr esblygodd fertebratau-tir-sych o bysgod.
Dewiswyd yr enw Jac gan ŵr Jenny a ddwedodd: "Roedd yn briodol iawn i mi gyfrannu at yr astudiaeth wyddonol bwysig hon o gogau er mwyn cofio am wyddonydd o'r radd flaenaf roeddwn yn ei haddoli."

Ymddengys fod Jac wedi dechrau ymfudo tua’r de wrth imi ysgrifennu hyn.

Daliwyd yr ail gog (a enwyd yn **Daniel**) ar safle Llyn Efyrnwy yr RSPB ar y 5$^{ed}$ o Fehefin, a hynny gan Lee a’r modrwywr lleol, Mike Haigh. Yn ddiddorol, ni chychwynnodd hwn ar ei siwrnai yn syth. Gadawodd Efyrnwy ddwywaith a mynd i gyrion Llanymynech lle y magwyd Lee! Tybed beth sibrydodd Lee yn ei glust wrth iddo ei fodrwyo?

Yn ôl yr hen gwpled:

*Yr amser i ganu yw Ebrill a Mai,*
*A hanner Mehefin, chwi wyddoch pob rhai.*

Ond 'tydi hyn ddim yn hollol gywir. Mae’n wir bod y ceiliogod yn rhoi’r gorau i ganu yn ystod Mehefin, ond bydd yr ieir yn dal ati i ganu – nid canu 'cw-cw, cw-cw' ond gwneud ‘sŵn byrlymu’ hollol wahanol.



Wrth i ni lunio’r erthygl hon gwelwn bod Jac a Daniel wedi dilyn llwybrau tra gwahanol tua'r de. Croesodd Jac fôr y Canoldir ger gogledd Sbaen, ac wedyn aeth yn syth ar draws y Sahara; y mae o bellach yn Nigeria. Y mae Daniel fodd bynnag wedi cymryd pethau yn fwy hamddenol. Y mae o yn dal yng nghyffiniau Milan ac yn amlwg am ddilyn y llwybr i lawr yr Eidal cyn croesi Môr y Canoldir.

Mae gosod dyfais tracio lloeren ar gefnau adar yn waith cymharol rwydd. Mae’r ddyfais ei hun yn costio £4,000, a rhaid talu tua £50 yr wythnos i gael y data o'r lloeren.

Mae gosod y tagiau wedi dysgu llawer inni am gyfrinach bywyd ein cogau, a’r gobaith yw y bydd hyn yn arwain at ddatblygiadau fydd yn helpu’r adar i oroesi, fel y gall cenedlaethau’r dyfodol fwynhau clywed y deunod sy’n nodwedd mor unigryw a phwysig o'r gwanwyn.

I gael diweddariad dyddiol a rhagor o wybodaeth am y prosiect, ewch i'r wefan:

*www.bto.org/our-science/projects/cuckoo-tracking-project*

**Kelvin Jones**

# Edward Vyrnwy Breeze Jones (1929- 1997)

Dyma gopi estynedig o'r ysgrif fywgraffiadol yrrwyd at Olygydd Y Bywgraffiadur Cymreig yn ddiweddar. Cyfle i ninnau atgoffa ein hunain am y gŵr hawddgar oedd yn awdur, adarwr a darlledwr o fri a fu'n ysbrydoliaeth i sefydlu ein Cymdeithas ni.



Ganed Ted Breeze Jones ar yr 8fed o Fawrth, 1929 yn 2 Tanybwlch, Cae Clyd, Blaenau Ffestiniog. Roedd ef a'i frawd hŷn, Stanley Morris Jones, yn feibion i Morris William Jones (1884-1939), oedd â busnes cario yn yr ardal, a Martha Jones (g., Williams) (1889-1939). Roedd Ted yn 9-10 oed pan gollodd ei ddau riant yn 1939 ac fe'i mabwysiadwyd gan ei fodryb a'i ewythr, Martha a Humphrey Williams, 8 Heol Dorfil. O'i blentyndod cynnar ymddiddorai Ted mewn adar a byd natur. Dywedodd iddo gael siom enfawr yn 14 oed pan aeth i Lyfrgell y dre a chanfod nad oedd Llyfr y Tri Aderyn yn ddim amgenach na thraethawd crefyddol hynafol. Nid wrth ei deitl mae adnabod llyfr mwy na nid wrth ei big y mae prynu cyffylog.

Ar gychwyn cwrs athro yn y Coleg Normal, Bangor yn 1946 cyfarfu â'r naturiaethwr T G Walker, Prifathro Ysgol Henblas, Môn a bu'r ddau yn gyfeillion oes. Prentisiwyd Ted yn drylwyr gan Walker ar bob agwedd o adarydda ymarferol a phrynodd gamera i dynnu lluniau ar gyfer dylunio cyfrolau adaryddol Walker. Byddai'r ddau yn galw heibio'r arlunydd Charles F. Tunnicliffe ym Malltraeth, oedd wrth fodd Ted oedd â diddordeb mewn arlunio. Bu iddo hyd yn oed ystyried cymryd swydd fel athro celf mewn ysgol yn Lloegr ond, wrth lwc, roedd galwad bro Ffestiniog yn llawer cryfach.

Wedi gorffen ei gwrs coleg treuliodd ddwy flynedd o Wasanaeth Cenedlaethol yn yr awyrlu cyn cael swydd athro yn Nhrawsfynydd yn 1950. Symudodd i Ysgol Maenofferen yn y Blaenau yn 1952 ac i ysgol ei febyd yn y Manod yn 1962. Ymgartrefodd yn Bronant, Cae Clyd yn 1962.

Daliai gysylltiad â Môn ac yn y 1950au elai Ted i dynnu lluniau o baentiadau Tunnicliffe cyn iddynt gael eu gwerthu neu fynd i arddangosfeydd. Erbyn hyn ffotograffiaeth natur oedd ei brif ddiddordeb a threuliau oriau lawer mewn cuddfannau; rhai mewn llefydd uchel a

pheryglus yn chwareli tanddaearol y Blaenau a mwynfeydd copr Eryri i gael lluniau o nythod brain coesgoch. Byddai pobl 'helth & seffti' y dyddiau hyn yn cael ffit biws!

Roedd y lluniau yn gyfrwng addysgiadol gwerthfawr yn yr ysgol; yn fodd i rannu ei brofiadau o ryfeddod natur â'r plant ac i gyflwyno negeseuon pwysig am werth crefft, parch at yr amgylchedd, a rhinweddau amynedd a sylwgarwch. Ysbrydolodd genedlaethau o naturiaethwyr ifanc.



*Ted - yr athro*

Ymddangosodd nifer dda o'i luniau mewn cylchgronau Saesneg yn y 1950-60au megis *Birds Monthly Illustrated*, *Cage Birds, Country Life* a *Country Quest* a chanmolai y byddai'r tâl am lun cystal a chyflog wythnos iddo fel athro. Ysgrifennai i *Gymru'r Plant*, *Yr Athro*, a chyfrannodd luniau i gyfrolau natur ei gyfeillion T.G. Walker a Griff E. Thomas, Pwllheli. Dechreuodd yntau gyhoeddi cyfrolau yn ogystal, ar gyfer ysgolion yn bennaf.

Darlithiai i gymdeithasau a chynhaliai ddosbarthiadau i'r WEA ac Adran Efrydiau Allanol Prifysgol Bangor. Yn 1967 daeth yn aelod o'r gyfres radio boblogaidd Seiat Byd Natur a bu'n aelod selog hyd iddi orffen yn 1994. Wrth ateb cwestiynau i'r Seiat gwelodd fod cryn gymysgedd yn enwau gwahanol adar rhwng ardaloedd ac nad oedd enwau Cymraeg o gwbl ar rai o'r adar prinnach. Cydweithiodd â'i gyfaill Peter Hope Jones i gael trefn ar bethau a chyhoeddwyd Rhestr o Adar Cymru (1974) dan nawdd yr Amgueddfa Genedlaethol. Hon oedd y rhestr gyntaf o enwau safonol i grŵp o greaduriaid yn y Gymraeg ac yn fodel i'r hyn a ddilynodd ym myd enwau Cymraeg ar fyd natur.

Yn 1974 priododd Ted ag Anwen ac ymgartrefodd y ddau yn Bryn Eithin, Llandecwyn ger aber yr afon Dwyryd.

Drwy'r 1970au a'r 80au yn rhan o ddeffroad ieithyddol cyffredinol y cyfnod cynyddodd y diddordeb mewn byd natur ymysg Cymry Cymraeg a

gellir ystyried yr 1980-90$^{au}$ yn Oes Aur ar naturiaetha yn y Gymraeg. Gwelwyd bri ar gyhoeddi llyfrau a chylchgronau natur megis Cynefin (1981-) a Dan Haul (1992-) y bu Ted yn gyfrannwr cyson iddynt ac i raglenni radio a theledu – yn enwedig wedi sefydlu S4C yn 1982. Ted oedd naturiaethwyr Cymraeg amlycaf y cyfnod hwn.

Byddai'n cynnal cyrsiau natur yn ogystal. Cychwynnodd hyn yng Nglan Llyn ddiwedd y 1960$^{au}$ ac yna'n flynyddol ym Mhlas Tan y Bwlch o 1975 hyd 1995. Rhwng 1966 a 1997 cyhoeddodd 31 o gyfrolau a thros 600 o erthyglau mewn cylchgronau.

Ymddeolodd yn gynnar o'i swydd fel athro yn 1982 i ganolbwyntio ar adarydda, cyhoeddi a darlledu. Roedd galw mawr ar ei wasanaeth fel darlledwr a theithiodd dramor i ffilmio, yn cynnwys y gyfres deledu Awyr Iach; i Sbaen (1988), Morocco (1989) a Gambia (1990). Derbyniodd nawdd Gwobr Goffa Sam Jones i ymweld â Bharatpur yn yr India (1991). Ar sail hyn darparodd restr ar y cyd â Ruurd Jorritsma o enwau Cymraeg i adar Ewrop (1996) gan fraenaru'r tir ar gyfer y rhestr o enwau Cymraeg i adar y byd gyhoeddwyd ar wefan **www.llennatur.cymru** yn 2017.

Yn y 1950-60$^{au}$ gwerthfawrogai Ted fyd natur er ei fwyn ei hun ar adeg pan welai llawer ddim o'i le mewn casglu wyau adar, dal adar bychain i'w rhoi mewn cewyll a saethu creaduriaid er mwyn eu stwffio. Roedd yn arloeswr a gyflwynai'r neges amgylcheddol a pharchu natur i Gymry Cymraeg o bob oed. Pwy all anghofio ei ddawn i gyflwyno rhyfeddod natur drwy ei straeon difyr yn seiliedig ar ei brofiadau helaeth ei hyn?

Bu farw ar 3$^{ydd}$ Gorffennaf 1997 a'i gladdu ym mynwent Minffordd. Yn 2003 sefydlwyd Cymdeithas Ted Breeze Jones i'w goffáu.

O.N.: un dirgelwch efallai y medr rhai o ddarllenwyr Llygad Barcud ei ddatrys inni, sef ei ddau enw canol. Pam y Breeze – sy'n enw mwy cyffredin yng nghanolbarth Cymru a Vyrnwy, sy'n cyd-fynd â hynny. A oedd ryw gangen o'r teulu yn hanu o'r parthau hynny?

**Twm Elias**

## Gweithgareddau y Gymdeithas

Edrychwn ymlaen i ail-afael mewn pethau a mwynhau eich cwmni.
Cadwch lygad ar eich e-bost ac ar wefan y gymdeithas...

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**